

Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia

Crynodeb

Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia

Crynodeb

Gwnaethom edrych ar y gofal y mae pobl sy'n byw gyda dementia yn ei gael mewn cartrefi gofal yng Nghymru, a sut y cânt eu cefnogi yn ystod y cyfnod pwysig hwn o'u bywydau.

Roeddem am wneud argymhellion er mwyn gwella bywydau pobl. Gwnaethom gyhoeddi'r rhain mewn adroddiad ar ein gwefan, sef **Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia**.

Ceir crynodeb o'n canfyddiadau isod.

Yr hyn a wnaethom

Gwnaethom gynnal 164 o arolygiadau mewn amrywiaeth o gartrefi gofal. Gwnaethom siarad â chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal. Gwnaethom siarad â phobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd, a gwelsom y gofal roeddent yn ei gael.

Ein prif ganfyddiadau

- Mae pobl sy'n byw gyda dementia yn cael gofal gan staff sy'n gynnes ac yn barchus, ac sy'n darparu gofal yn unol â'u cynlluniau gofal.
- Caiff y gofal ei ruthro mewn nifer bach o gartrefi.
- Roedd staff yn cael hyfforddiant ar ddementia, ond nid oedd hyn bob amser yn golygu bod pobl yn cael gofal yn y ffordd orau.
- Gallai llesiant a gofal pobl fod yn well drwy wneud gwelliannau i le maent yn byw.
- Yn gyffredinol, roedd teuluoedd yn gadarnhaol iawn am y gofal, y staffio a'r rheolaeth yn y cartrefi gofal. Gwnaethant ddweud bod y staff yn ofalgar ac yn groesawgar, ac roeddent yn canmol y bwyd. Dywedodd teuluoedd wrthym fod angen gwella'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i bobl, lefelau staffio, a'r amgylchedd.
- Roedd pobl sy'n byw gyda dementia yn gallu cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd, ond yn aml nid oeddent yn cael diagnosis o'u dementia yn ddigon cynnar.
- Gellid gwella'r ffordd y mae gwahanol grwpiau o bobl yn cydweithio, yn enwedig pan fydd cleifion yn gadael yr ysbyty.
- Roedd meddyginiaeth pobl wedi cael ei gwirio gan feddyg neu fferylllydd mewn tua 90% o'r cartrefi gofal, ac roedd y staff yn edrych i weld pa effaith roedd y feddyginiaeth yn ei chael ar bobl.
- Dywedodd darparwyr fod un o bob pedwar o bobl sy'n byw gyda dementia yn cael meddyginiaeth a elwir yn feddyginiaeth wrthseicotig. Mewn tua thri chwarter o'r achosion, cynhaliwyd cyfarfod i ystyried y defnydd o'r feddyginiaeth hon. Mae angen gwneud rhagor o waith i weld pa mor aml y cynhelir yr adolygiadau hyn.
- Roedd pobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu cefnogi i gael cymorth iechyd meddwl arbenigol.

- Byddai prosesau mwy effeithiol ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau o'r ysbyty yn helpu cartrefi gofal.
- Gwelsom gartrefi gofal yn defnyddio technoleg, gan feithrin cysylltiadau â'u cymunedau a gwneud amrywiaeth o weithgareddau creadigol a oedd yn gwella llesiant pobl sy'n byw gyda dementia.
- Dywedodd darparwyr wrthym mai cadw staff, cymhlethdod dementia ac effaith pobl y mae angen gofal un i un arnynt ar y cartref oedd y prif heriau mewn cartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Roedd cyllid yn her gyffredin.

Argymhellion

1. **Dewis** – mae angen i bobl gael gwybodaeth gliriach am y lleoliad a'r mathau o wasanaeth sydd ar gael. Mae angen i bobl sy'n trefnu gofal mewn awdurdodau lleol ystyried y bylchau o ran darpariaeth cartrefi gofal.
2. **Hyfforddiant** – mae angen i bobl sy'n darparu gwasanaethau gofal, a'r rheini sy'n eu trefnu mewn awdurdodau lleol, sicrhau bod hyfforddiant yn cynnwys pobl sy'n byw gyda dementia sy'n cael gofal.
3. **Amgylchedd** – dylid dylunio ac adeiladu cartrefi gofal newydd er mwyn rhoi gofal da, ar sail gwybodaeth am nodweddion gofal da.
4. **Y Gymraeg** – dylai fod gwybodaeth well am faint o aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi gofal; dylai mwy o'r staff fod yn gallu siarad Cymraeg.
5. **Meddyginiaeth wrthseicotig** – dylai grwpiau sy'n ymwneud â gofalu am bobl gydweithio er mwyn gwella'r ffordd y caiff meddyginiaeth wrthseicotig ei rhoi a'i gwirio.
6. **Hawliau** - mae angen hyfforddiant gwell ar y staff mewn perthynas â hawliau pobl wrth iddynt gael gofal a chymorth.
7. **Cydweithio i roi cymorth** – dylid gwella'r cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl a'r ffordd y mae pobl yn mynd i mewn i'r ysbyty ac yn gadael yr ysbyty.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan:

<https://arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau/adroddiadau-cenedlaethol-thematig>